WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Trosolwg a Chraffu – Addas i'r Dyfodol? – **Cyngor Sir Powys**

Blwyddyn archwilio: 2017-18

**Dyddiad cyhoeddi:** Medi 2018

Cyfeirnod y ddogfen: 833A2018-19

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Nid oes unrhyw gyfrifoldeb ar yr Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn unigol, nac i unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.
Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn infoofficer@audit.wales.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Roedd y tîm a gyflawnodd y gwaith yn cynnwys Ian Phillips, Justine Morgan and Colin Davies o dan gyfarwyddyd Jane Holownia.

# Cynnwys

Bu'r Cyngor yn araf yn datblygu ei drefniadau craffu ac mae meysydd sylfaenol y mae angen iddo fynd i'r afael â nhw er mwyn i brosesau craffu weithredu'n effeithiol a chael effaith yn wyneb heriau yn y dyfodol


Adroddiad cryno

Crynodeb 4

Cynigion ar gyfer gwella 5

Adroddiad manwl

Bu'r Cyngor yn araf yn datblygu ei drefniadau craffu ac mae meysydd sylfaenol y mae angen iddo fynd i'r afael â nhw er mwyn i brosesau craffu weithredu'n effeithiol a chael effaith yn wyneb heriau yn y dyfodol 6

Nid yw fframwaith llywodraethu'r Cyngor yn helpu i greu amgylchedd cefnogol er mwyn i brosesau craffu weithredu'n effeithiol a chael effaith 6

Mae'r Cyngor yn cydnabod bod angen i'w swyddogaeth graffu wella. Mae lle i wella o ran y ffordd y caiff gweithgarwch craffu ei gynllunio, y ffordd y cynhelir cyfarfodydd craffu a'r ffordd y datblygir blaenraglenni gwaith 8

Nid yw'r Cyngor yn gwerthuso effaith prosesau trosolwg a chraffu ac ni all ddangos ei heffeithiolrwydd cyffredinol 10

Atodiadau

Atodiad 1 – canlyniadau a nodweddion prosesau trosolwg a chraffu effeithiol ar gyfer llywodraeth leol 12

Atodiad 2 – argymhellion o adroddiad astudiaeth wella genedlaethol yr Archwilydd Cyffredinol 'Craffu Da? Cwestiwn Da' (Mai 2014) 14

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

1 Ar y cyd â phob un o'r 22 o gynghorau yng Nghymru, gwnaeth yr adolygiad hwn archwilio pa mor 'addas i'r dyfodol' yw eu swyddogaethau craffu. Gwnaethom ystyried sut mae cynghorau yn ymateb i heriau cyfredol, yn cynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 (y Ddeddf) mewn perthynas â'u gweithgarwch craffu, yn ogystal â sut mae cynghorau yn dechrau ymgymryd â phrosesau craffu Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Gwnaethom hefyd archwilio p'un a yw cynghorau mewn sefyllfa dda i ymateb i heriau yn y dyfodol megis pwysau parhaus ar gyllid cyhoeddus a'r cam posibl tuag at drefniadau gweithio mwy rhanbarthol rhwng awdurdodau lleol.

2 Fel rhan o'r adolygiad hwn, gwnaethom hefyd adolygu'r cynnydd a wnaed gan gynghorau o ran mynd i'r afael ag argymhellion ein Hastudiaeth Wella Genedlaethol flaenorol **Craffu Da? Cwestiwn Da!** (Mai 2014) (gweler Atodiad 2). Gwnaethom hefyd gymryd camau dilynol mewn perthynas â'r cynigion ar gyfer gwella sy'n berthnasol i waith craffu a gyhoeddwyd gennym mewn adroddiadau lleol yn cynnwys y rhai a roddwyd i gynghorau fel rhan o'n hadolygiadau thematig yn 2016-17 ar Gynllunio Arbedion a Threfniadau Llywodraethu ar gyfer Penderfynu ar Newidiadau Sylweddol i Wasanaethau.

3 Nod ein hadolygiad oedd:

- nodi dulliau gweithredu ar gyfer ymgorffori'r egwyddor datblygu cynaliadwy mewn prosesau ac arferion craffu er mwyn llywio ymarfer a rennir a gwaith yr Archwilydd Cyffredinol yn y dyfodol mewn perthynas â'r Ddeddf;
- rhoi sicrwydd bod swyddogaethau craffu mewn sefyllfa dda i ymateb i heriau a disgwyliadau nawr ac yn y dyfodol;
- helpu i ymgorffori prosesau craffu effeithiol gan aelodau etholedig o ddechrau'r cylch etholiadol newydd; a
- rhoi trosolwg o ba mor dda y mae cynghorau wedi ymateb i ganfyddiadau ein Hastudiaeth Wella Genedlaethol flaenorol.

4 Er mwyn llywio ein canfyddiadau, gwnaethom seilio ein methodoleg adolygu ar Ganlyniadau a Nodweddion Trefniadau Trosolwg a Chraffu Effeithiol i Lywodraeth Leol a ddatblygwyd gennym ac y cytunwyd arnynt gan randdeiliaid craffu yng Nghymru yn dilyn ein Hastudiaeth Wella Genedlaethol flaenorol **Craffu Da? Cwestiwn Da!**.

5 Cynhaliwyd ein gwaith maes rhwng mis Chwefror a mis Ebrill 2018. Gwnaethom gynnal adolygiadau o ddogfennau, cyfweld â nifer o swyddogion allweddol a chynnal grwpiau ffocws gyda chynghorwyr allweddol er mwyn deall eu safbwyntiau ar drefniadau craffu presennol Cyngor Sir Powys (y Cyngor) ac yn benodol sut mae'r Cyngor yn mynd i'r afael â'r heriau a nodwyd uchod ac yn bwriadu ymateb iddynt.

6 Gwnaethom arsylwi sampl o gyfarfodydd craffu ac adolygu dogfennaeth berthnasol o'r cyfarfodydd a roddwyd i aelodau er mwyn cefnogi eu rôl graffu, fel adroddiadau a chyflwyniadau.

7 Yn yr adolygiad hwn daethom i'r casgliad bod y Cyngor wedi bod yn araf yn datblygu ei drefniadau craffu ac mae meysydd sylfaenol y mae angen iddo fynd i'r afael â nhw er mwyn i brosesau craffu weithredu'n effeithiol a chael effaith yn wyneb heriau yn y dyfodol.

# Cynigion ar gyfer gwella

8 Mae Arddangosyn 1 yn cynnwys ein cynigion ar gyfer ffyrdd y gallai'r Cyngor wella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd ei swyddogaeth trosolwg a chraffu er mwyn sicrhau ei fod mewn gwell sefyllfa i ateb heriau nawr ac yn y dyfodol.

Arddangosyn 1: cynigion ar gyfer gwella

| Cynigion ar gyfer gwella | |
|---|---|
| C1 | Nodi'n glir yn yr adroddiadau i'r pwyllgor trosolwg a'r pwyllgor craffu pam mae'r pwyllgor yn cael y wybodaeth a sut mae hyn yn ymwneud â rôl y pwyllgor craffu. |
| C2 | Darparu mwy o hyfforddiant yn benodol i Gadeiryddion ac Is-gadeiryddion y pwyllgor trosolwg a'r pwyllgor craffu er mwyn iddynt allu cyflawni eu rôl yn fwy effeithiol. |
| C3 | Gwneud trefniadau ar gyfer darparu hyfforddiant pellach i aelodau'r pwyllgor craffu ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol er mwyn helpu i ymgorffori ystyriaethau'r ddeddf honno ym mhrosesau gwneud penderfyniadau'r Cyngor |
| C4 | Atgyfnerthu'r trefniadau ar gyfer cynnwys y cyhoedd a rhanddeiliaid eraill mewn prosesau trosolwg a chraffu. |
| C5 | Egluro'r trefniadau i gyfleu barn y pwyllgor trosolwg a'r pwyllgor craffu i'r Cabinet ac i'r Cabinet ymateb i argymhellion a wneir |
| C6 | Rhoi trefniadau ar waith ar gyfer asesu effeithiolrwydd ac effaith prosesau trosolwg a chraffu |

# Adroddiad manwl

## Bu'r Cyngor yn araf yn datblygu ei drefniadau craffu ac mae meysydd sylfaenol y mae angen iddo fynd i'r afael â nhw er mwyn i brosesau craffu weithredu'n effeithiol a chael effaith yn wyneb heriau yn y dyfodol

### Nid yw fframwaith llywodraethu'r Cyngor yn helpu i greu amgylchedd cefnogol er mwyn i brosesau craffu weithredu'n effeithiol a chael effaith

9 Gellid diffinio rôl y swyddogaeth trosolwg a chraffu yn gliriach ac mae angen iddi gael ei deall yn well gan yr aelodau. Mae cyfansoddiad y Cyngor yn nodi bod y Cyngor wedi penodi tri phwyllgor craffu. Mae Pwyllgor Archwilio'r Cyngor wedi'i gynnwys fel pwyllgor craffu, ac er bod craffu ar faterion penodol yn rhan o rôl y Pwyllgor Archwilio, mae'n fwy arferol i Bwyllgor Archwilio gael ei ddosbarthu ar wahân i bwyllgorau trosolwg a chraffu yng nghyfansoddiadau Cynghorau. Mewn cyferbyniad, mae'r Cynllun Gwella Corfforaethol drafft presennol ar gyfer 2018-23 yn nodi bod y Pwyllgor Archwilio yn annibynnol ar swyddogaethau'r cabinet a'r swyddogaethau craffu. At hynny, er bod y Cyngor wedi nodi bod tri phwyllgor trosolwg a chraffu, mae adran 7.4 o'r cyfansoddiad yn nodi pedwerydd pwyllgor, sef Cyd-Grŵp Llywio'r Cadeiryddion a'r Is-gadeiryddion.

10 Nid oedd yr aelodau craffu y tu allan i Gyd-Grŵp Llywio'r Cadeiryddion a'r Is-gadeiryddion yn ymwybodol o rôl y Grŵp Llywio hwnnw ac nid oeddent yn gwybod ei fod yn craffu ar eitemau corfforaethol penodol. Er enghraifft, ystyriodd y Grŵp Llywio y Cynllun Gwella Corfforaethol drafft ym mis Chwefror 2018. Fodd bynnag, mae angen egluro'r cysylltiadau rhwng y Grŵp Llywio a'r pwyllgorau craffu a'r gweithgorau craffu eraill a'u cyfleu i'r holl aelodau craffu.

11 Mae cytundeb cyffredinol ymhlith yr aelodau craffu a'r swyddogion craffu bod y penderfyniad i enwi dau o'r pwyllgorau craffu yn 'Bwyllgor Craffu A' a 'Phwyllgor Craffu B' yn ddi-fudd am nad yw'n glir beth yw cylch gwaith y naill na'r llall, er bod y cyfansoddiad yn nodi cylch gorchwyl y naill a'r llall. Ar yr adeg y cynhaliwyd ein gwaith maes, roedd y Cyngor wrthi'n adolygu ei strwythur craffu ac yn bwriadu mynd i'r afael â'r mater hwn. Ar ôl hynny, cyflwynodd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd bapur i gyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 17 Mai 2018 a oedd yn cynnig strwythur newydd o bedwar pwyllgor wedi'i gysylltu â blaenoriaethau'r Cyngor a nodir yn ei ddogfen Gweledigaeth 2025 (Pwyllgor Archwilio, Pwyllgor Craffu Dysgu a Sgiliau, Pwyllgor Craffu Iechyd a Gofal a Phwyllgor Craffu'r Economi, Trigolion a Chymunedau). Fodd bynnag, derbyniwyd cynnig i newid y cynnig gwreiddiol i dri phwyllgor (Pwyllgor Archwilio, Pwyllgor Craffu Dysgu, Sgiliau

a’r Economi a Phwyllgor Craffu Iechyd, Gofal a Thai) gyda nifer yr aelodau ar bob pwyllgor yn cynyddu o naw cynghorydd yn y cynnig gwreiddiol i 21 yn y diwygiad.

12 Yn 2017 cynhaliodd y Cyfarwyddwr Strategol Adnoddau adolygiad o’r gwasanaeth craffu. Nododd yr adolygiad fod angen proffil uwch ar y gwasanaeth craffu neu o leiaf broffil mwy cadarnhaol. Rydym yn cydnabod bod yr adolygiad hwn yn rhoi darlun agored a gonest o’r gwasanaeth craffu a’i fod yn nodi’n glir ddiffygion canfyddedig yn y trefniadau craffu a meysydd lle y mae angen gwella. Fodd bynnag, yn 2013 cynhaliodd y Cyngor hunanwerthusiad o weithgarwch craffu ar gyfer ein Hadroddiad **Craffu Da? Cwestiwn Da?**, y cyfeiriwyd ato uchod. Roedd sawl maes y nodwyd bod angen eu gwella yn 2013 naill ai wedi gwaethygu neu wedi aros yn yr un peth ac ystyriwyd eu bod yn rhwystro’r gwaith o wella prosesau craffu. Er enghraifft, daeth adolygiad y Cyfarwyddwr Strategol o’r gwasanaeth craffu, a gynhaliwyd yn 2017, i’r casgliad bod y trefniadau a oedd ar waith i brosesau trosolwg a chraffu herio perfformiad gwael a’i achosion yn rhwystro gwelliant.

13 Yn hanesyddol bu anawsterau rhwng y Cabinet a’r Gwasanaeth Craffu o ran eu cydberthynas, er bod aelodau a swyddogion wedi dweud bod y gydberthynas hon yn dangos arwyddion ei bod yn gwella yn ddiweddar. Ar adegau mae gweithgarwch craffu wedi’i ystyried yn rhywbeth negyddol ac, weithiau, nad oedd yn ddigon anwleidyddol. I’r gwrthwyneb, mynegodd aelodau craffu rwystredigaeth barhaus ynghylch y ffaith nad oeddent yn aml yn cael ymateb gan y Cabinet ynghylch p’un a oedd awgrymiadau/argymhellion gan y gwasanaeth craffu wedi cael eu hystyried ai peidio

14 Mae aelodau’r pwyllgorau craffu wedi cael hyfforddiant i’w helpu i gyflawni eu rolau. Fodd bynnag, nododd holiadur a gwblhawyd gan uwch reolwyr fel rhan o Adolygiad y Cyfarwyddwr Strategol o’r gwasanaeth craffu, a gynhaliwyd yn 2017, fod angen darparu rhagor o hyfforddiant er mwyn i’r aelodau allu herio mewn ffordd fwy adeiladol a holi’n fwy effeithiol. Roedd rhai o’r aelodau y gwnaethom siarad â hwy o’r farn nad oedd digon o sylw yn cael ei roli i fater craffu fel rhan o’u rhaglen sefydlu. Roedd yr aelodau hefyd yn gryf o’r farn bod angen iddynt gael hyfforddiant ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015.

15 Mae parch mawr tuag at rôl swyddogion cymorth craffu, ar y cyfan, er bod pwysau mawr arnynt a’r adnoddau prin sydd ar gael i wneud ymchwil ar ran yr aelodau. Cydnabuwyd hyn gan Adolygiad y Cyfarwyddwr Strategol o’r gwasanaeth craffu, a gynhaliwyd yn 2017, ac argymhellodd y dylid gwneud swyddi’r ddau swyddog cymorth craffu yn rhai amser llawn a chreu un swydd Cyfwerth ag Amser Llawn ychwanegol. Ar ôl hynny, dyrannodd cyllideb 2018-19 £12k ar gyfer ‘Adolygiad y Tîm Craffu’ ond nid oes unrhyw naratif yn yr adroddiadau cyllidebol o ran pa gynlluniau sydd ar gyfer yr arian hwn.

16 Araf fu’r cynnydd o ran sefydlu pwyllgor i graffu ar Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) Powys. Mae cynghorau eraill yng Nghymru lle mae’r trefniadau ar gyfer craffu ar y BGC wedi’u hen sefydlu. Mae’r Cyngor yn rhagweld y caiff y

pwyllgor ei sefydlu ac y bydd yn barod i ddechrau craffu ar y BGC yn y dyfodol agos.

## Mae'r Cyngor yn cydnabod bod angen i'w swyddogaeth graffu wella. Mae lle i wella o ran y ffordd y caiff gweithgarwch craffu ei gynllunio, y ffordd y cynhelir cyfarfodydd craffu a'r ffordd y datblygir blaenraglenni gwaith

17 Nodwyd gennym sawl enghraifft lle mae gweithgarwch craffu wedi codi pryderon ynglŷn ag amseroldeb a/neu ansawdd y wybodaeth y mae'n ei chael. Er enghraifft, mae cofnodion y Grŵp Craffu Hamdden/Diwylliant ar 18 Medi 2017 yn nodi'r canlynol:

- Mae'r Grŵp yn cyflwyno'r sylwadau canlynol i'r Cabinet/Tîm Rheoli ynghylch yr Adroddiad drafft i'r Cabinet a rannwyd â'r grŵp craffu (wedi'i atodi yn Atodiad A). Er bod amserlenni wedi'u cytunol cyn yr haf darparwyd yr adroddiad yn hwyr i'r pwyllgor craffu. Daeth yn amlwg wrth graffu arno fod angen gwneud gwaith ar yr adroddiad a ddarparwyd o hyd cyn y câi ei gyflwyno i'r Cabinet. Gofynnodd i'r Cabinet/Tîm Rheoli bwysleisio bod angen i adroddiadau y mae angen craffu arnynt cyn eu cyflwyno i'r Cabinet gael eu darparu gyda digon o fanylion a gan roi digon o amser iddynt gael eu hystyried.

18 Caiff llawer o'r gwaith craffu gwirioneddol ei gyflawni gan weithgorau sy'n eistedd o dan bwyllgor craffu 'A' neu 'B'. Fel rhan o'n gwaith maes, gwnaethom arsylwi ar rai o'r cyfarfodydd ac roedd cryfderau amlwg. Er enghraifft, roedd lefel dda o gyfranogiad gan yr aelodau yn y cyfarfodydd ac roedd yr awyrgylch yn adeiladol ac yn anwleidyddol.

19 Un maes y gellid ei wella yw bod gwybodaeth a dderbynnir gan y pwyllgorau craffu, er enghraifft adroddiadau swyddogion, yn tueddu i gael ei darparu heb adroddiad eglurhaol sy'n nodi pam mae'r eitem yn cael ei chyflwyno er mwyn iddynt graffu arni a'r hyn a ddisgwylir gan yr aelodau o ran yr eitem honno. Byddai rhoi eglurder o'r fath yn helpu aelodau'r pwyllgorau craffu i ddeall eu rolau yn llawn.

20 Am fod llawer o'r gwaith craffu gwirioneddol yn cael ei gyflawni gan y gweithgorau mewn cyfarfodydd nad ydynt yn agored i'r cyhoedd, roedd angen i 'r Cyngor fyfyrio ar b'un a yw dull gweithredu o'r fath yn ddigon tryloyw. Mae'r Cyngor wedi ystyried hyn ac mae papur y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a gyflwynwyd i'r Cyngor ar 17 Mai yn nodi, fel egwyddor gyffredinol, y câi'r holl faterion eu hystyried mewn cyfarfod llawn o Bwyllgor Craffu. Fodd bynnag, derbyniwyd ei bod yn bosibl y bydd angen sefydlu gweithgor gorchwyl a gorffen o bryd i'w gilydd, at ddibenion penodol, ond y byddai'n gweithredu am gyfnod penodol o amser. Cydnabu adolygiad y Cyfarwyddwr Strategol o'r gwasanaeth craffu, a gynhaliwyd yn 2017, fod angen i'r gwasanaeth craffu wella'r ffordd y mae'n ymgysylltu â'r cyhoedd, ond nad yw trefniadau'r Gweithgor yn addas i wella gweithgarwch ymgysylltu o'r fath. At hynny, nid yw'r Cyngor wedi cael unrhyw fewnbwn gan dystion allanol/trydydd

partïon eraill ac, felly, mae lle i wella gweithgarwch ymgysylltu ehangach y gwasanaeth craffu. Mae papur y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a gyflwynwyd i'r Cyngor ar 17 Mai yn nodi ymrwymiad y dylai cyfarfodydd y pwyllgorau craffu gael eu cynnal, fel arfer, yn gyhoeddus oni bai bod materion cyfrinachol yn cael eu trafod, ac y dylai'r Cyngor ymchwilio i'r posibilrwydd o we-ddarlledu cyfarfodydd pwyllgorau craffu yn y dyfodol. Dywedodd aelodau wrthym, wrth gynllunio'r broses o graffu ar eitemau ar agendâu, nad ydynt yn ystyried beth yw'r ffordd orau o graffu ar eitem, er enghraifft drwy drefnu ymweliadau safle neu ffonio tystion allanol. Dylid rhoi'r un sylw i'r ffordd y creffir ar eitem ar gam llunio'r flaenraglen waith â 'pha' eitemau y creffir arnynt.

21 Mae blaengynllunio gwaith craffu yn rhan o rôl Cyd-Grŵp Llywio'r Cadeiryddion a'r Is-gadeiryddion. Caiff rhaglenni gwaith eu hystyried hefyd gan bwyllgorau craffu 'A' a 'B' er bod y pwyllgorau hynny ond yn tueddu i gyfarfod bob chwarter. Noda adolygiad y Cyfarwyddwr Strategol o'r gwasanaeth craffu, a gynhaliwyd yn 2017, fod angen gwneud rhagor o waith i gydgysylltu Rhaglenni Gwaith y pwyllgorau craffu a'r Cabinet er mwyn helpu i rag-graffu ar benderfyniadau mawr a fydd yn cael eu gwneud gan y Cabinet. Fodd bynnag, roedd y swyddogion yn glir bod y Cyngor yn cyflawni llawer mwy o waith craffu cyn gwneud penderfyniadau ar hyn o bryd; tua 18 mis yn ôl nid oedd yn craffu ar benderfyniadau cyn iddynt gael eu gwneud mewn gwirionedd. Serch hynny, rydym o'r farn bod lle i lunio blaenraglen waith craffu fwy penodol a llai o faint sy'n canolbwyntio ar y materion sylweddol y mae'r Cyngor yn eu hwynebu.

22 Cyhoeddir blaenraglenni gwaith y Cabinet a'r pwyllgorau craffu ar wefan y Cyngor. Gallai'r flaenraglen waith craffu nodi'n gliriach *pam* y creffir ar eitemau ac (yn y fersiwn o'r flaenraglen waith craffu a gyhoeddwyd ar 20 Chwefror 2018) mae nifer o'r meysydd 'disgrifiad' yn wag. Yn yr un modd, nid yw blaenraglen waith y Cabinet yn ddigon manwl ac nid yw'n rhoi llawer o wybodaeth. Hefyd, gallai'r cysylltiadau rhwng rhaglenni gwaith y naill a'r llall fod yn gryfach.

23 Rydym yn ymwybodol o ddwy enghraifft ddiweddar arall lle nad yw'r gwaith o gynllunio eitemau wedi bod mor effeithiol ag y gallai fod wedi bod. Mae cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 30 Ionawr 2018 yn cyfeirio at y Cynllun Arweinyddiaeth a Llywodraethu Corfforaethol a sylwadau Cadeirydd y grŵp craffu bod yn rhaid i sylwadau gael eu cyflwyno drwy e-bost am fod seminar ar gyllideb y Cyngor wedi'i alw ar gyfer adeg pan oedd disgwyl i'r Grŵp gyfarfod. Roedd yn flin ganddo nad oedd digon o amser i graffu ar ddogfen mor bwysig. Hefyd, mae cofnodion cyfarfod y Panel Craffu Cyllid a gynhaliwyd ar 8 Chwefror 2018 yn nodi 'The Panel are concerned by the lateness of the budget proposals being made available. It gives no time for adequate scrutiny to influence the final budget. With the increased pressures on the budget the Panel believes that it should be given more opportunity to comment on the emerging budget at a much earlier stage. The Panel has therefore not been able to adequately scrutinise the budget and its implications and Members should note this.'

24 Er i ni weld lefel dda o gyfranogiad gan yr aelodau yn y cyfarfodydd y gwnaethom arsylwi arnynt, ar adegau roedd y cwestiynau yn rhy blwyfol. Cynhaliwyd grwpiau

ffocws gydag aelodau ac un o'r themâu a ddaeth i'r amlwg oedd y dylai cyfarfodydd craffu gael eu cadeirio'n fwy cadarn, er enghraifft dylai cadeiryddion sicrhau y caiff yr holl wybodaeth sydd ei hangen ar y pwyllgor ei darparu ac y dylai cynlluniau gweithredu gael eu llunio yn sgil cyfarfodydd. O'r sylwadau a gawsom ymddengys y byddai hyfforddiant ar sgiliau cadeirio yn ddefnyddiol.

25 Bu lefelau amrywiol o bresenoldeb mewn cyfarfodydd yn broblem ers cryn amser. Er mai mater i gynghorwyr ac arweinwyr grŵp unigol yw lleihau'r broblem hon yn y bôn, mae'r Cyngor wedi mynd ati i edrych at ddatblygiadau technegol a allai, yn y dyfodol, ei gwneud hi'n haws i aelodau gymryd rhan mewn cyfarfodydd o bell. Mae wedi darparu hyfforddiant ar Skype i aelodau ac mae swyddogion wedi trafod y mater hwn â Llywodraeth Cymru, am eu bod yn ymwybodol y gallai cymryd rhan mewn cyfarfodydd o bell fod yn fuddiol o gofio maint Powys a'i natur wledig.

## Nid yw'r Cyngor yn gwerthuso effaith prosesau trosolwg a chraffu ac ni all ddangos ei heffeithiolrwydd cyffredinol

26 Er i'r Cyngor gynnal adolygiadau o'r swyddogaeth graffu yn 2013 a 2017, nid yw'n gwerthuso effaith gweithgarwch craffu yn systematig. Dywedwyd wrthym y gellid dangos yr effaith honno mewn achosion lle mae'r Cabinet wedi derbyn argymhellion ar eitemau sy'n destun gwaith rhag-graffu. Fodd bynnag, fel y nodwyd uchod, mynegodd aelodau craffu rwystredigaeth ynghylch y ffaith nad oeddent wedi cael gwybodaeth gan y Cabinet a oedd yn nodi ei resymau dros dderbyn neu wrthod argymhellion y pwyllgorau craffu. Yn gyffredinol, ni all y Cyngor ddangos bod gweithgarwch craffu yn cael digon o effaith.

27 Mae'r gwaith a wnaed i graffu ar eitem ar agenda cyfarfod a oedd yn ymwneud â Chanolfan Awyr Agored Staylittle yn enghraifft ddiweddar o adnoddau craffu yn cael eu defnyddio heb iddynt gael unrhyw effaith amlwg. Ystyriodd y Gweithgor Craffu Hamdden/Diwylliant y mater ar 18 Medi 2017 a gwnaeth ddau argymhelliad i'r Cabinet. Wedyn mae datgysylltiad rhwng yr argymhellion hynny a'r adroddiad eglurhaol a anfonwyd i'r Cabinet ar 10 Hydref 2017, am nad yw'r adroddiad eglurhaol yn cyfeirio at yr argymhellion hynny. Mewn gwirionedd, mae'r adroddiad eglurhaol yn cynnwys adran sy'n gofyn 'Pa newidiadau sydd wedi'u gwneud ers y dyddiad Craffu ac esboniwch pam mae argymhellion y Pwyllgor craffu wedi'u derbyn neu wedi'u gwrthod'. Fodd bynnag, nid yw'r esboniad a roddir yn ymwneud â'r pwyntiau a godwyd gan y gweithgor Hamdden/Diwylliant. Felly, nid oes unrhyw gofnod o'r ffordd y cafodd y pwyntiau a godwyd gan y pwyllgor craffu eu hystyried ac nid oes unrhyw gyfeiriad at hyn yng nghofnodion cyfarfod y Cabinet ychwaith.

28 Er ein bod yn cydnabod, ar y cyfan, nad yw effaith gweithgarwch craffu bob amser yn amlwg, o ystyried yr adnoddau y mae'r Cyngor yn eu defnyddio i wneud gwaith craffu h.y. yr amser a dreulir gan aelodau a swyddogion mewn cyfarfodydd craffu ffurfiol ac yn cymryd rhan mewn gweithgorau craffu, mae'n bwysig bod y Cyngor yn ystyried y ffordd orau o sicrhau bod y fath waith sy'n defnyddio llawer o adnoddau yn cael yr effaith fwyaf bosibl. Byddai'n fuddiol i'r Cyngor ystyried ffyrdd gwahanol

a mwy creadigol o wneud gwaith craffu er mwyn gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael a sicrhau'r canlyniadau gorau posibl a ble y gall ychwanegu'r gwerth mwyaf, yn enwedig o ystyried y diffyg sylweddol y mae'n ei wynebu yng nghyllideb 2019-20.

# Atodiad 1

## Canlyniadau a nodweddion trefniadau trosolwg a chraffu effeithiol i lywodraeth leol

Arddangosyn 2: canlyniadau a nodweddion trefniadau trosolwg a chraffu effeithiol i lywodraeth leol

| Canlyniadau | Nodweddion |
|---|---|
| **Beth mae trefniadau craffu da yn ceisio ei gyflawni?** | **Beth fyddai eu nodweddion? Sut y gallem eu hadnabod?** |
| **1. Mae atebolrwydd democrataidd yn ysgogi gwelliant mewn gwasanaethau cyhoeddus.**<br>**'Gwell Gwasanaethau'** | **Amgylchedd**<br>i) Mae gan graffu rôl benodol a gwerthfawr o fewn trefniadau gwella'r cyngor.<br>ii) Mae'r swyddogaeth graffu yn cael y cymorth sydd ei angen arni gan swyddogion sy'n gallu cynnal gwaith ymchwil annibynnol yn effeithiol, ac mae'n rhoi dadansoddiadau, cyngor a hyfforddiant o ansawdd uchel i aelodau pwyllgorau craffu.<br><br>**Arfer**<br>iii) Mae ymchwiliadau'r swyddogaeth Trosolwg a Chraffu yn anwleidyddol, yn fethodolegol gadarn ac yn cynnwys amrywiaeth eang o dystiolaeth a safbwyntiau.<br><br>**Effaith**<br>iv) Mae'r swyddogaeth trosolwg a chraffu yn herio gwneuthurwyr penderfyniadau a darparwyr gwasanaethau yn rheolaidd ar sail tystiolaeth.<br>v) Mae'r swyddogaeth graffu yn darparu atebion ymarferol yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn i broblemau cydnabyddedig. |

| Canlyniadau | Nodweddion |
|---|---|
| **Beth mae trefniadau craffu da yn ceisio ei gyflawni?** | **Beth fyddai eu nodweddion? Sut y gallem eu hadnabod?** |
| **2. Mae'r broses o wneud penderfyniadau democrataidd yn atebol, yn gynhwysol ac yn gadarn.**<br>**'Gwell penderfyniadau'** | **Amgylchedd**<br>i) Mae cynghorwyr craffu yn cael y cyfleoedd hyfforddi a datblygu sydd eu hangen arnynt i ymgymryd â'u rôl yn effeithiol.<br>ii) Mae'r broses yn cael cymorth effeithiol gan Dîm Rheoli Corfforaethol y Cyngor sy'n sicrhau bod y wybodaeth a roddir i'r swyddogaeth graffu o ansawdd uchel ac y caiff ei darparu mewn modd amserol a chyson.<br><br>**Arfer**<br>iii) Caiff y swyddogaeth graffu ei harwain gan Aelodau, ceir 'perchenogaeth' o'i rhaglen waith, mae'n ystyried safbwyntiau'r cyhoedd, partneriaid a rheoleiddwyr, ac yn cydbwyso'r broses o flaenoriaethu pryderon y gymuned yn erbyn materion lle ceir risg strategol a materion o bwysigrwydd strategol.<br>iv) Mae gan randdeiliaid y gallu i gyfrannu at y broses o ddatblygu a chyflawni blaenraglenni gwaith craffu.<br>v) Caiff cyfarfodydd a gweithgareddau'r swyddogaeth trosolwg a chraffu eu cynllunio'n dda, eu cadeirio'n effeithiol ac maent yn gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael iddi.<br><br>**Effaith**<br>vi) Mae Aelodau anweithredol yn cadw cydbwysedd o ran penderfyniadau Gweithredol yn seiliedig ar dystiolaeth.<br>vii) Mae gwneuthurwyr penderfyniadau yn sicrhau eu bod yn atebol i'r cyhoedd mewn perthynas â'u cyfrifoldebau portffolio mewn pwyllgorau craffu. |
| **3. Mae'r cyhoedd yn cymryd rhan mewn trafodaeth ddemocrataidd ynglŷn â darparu gwasanaethau cyhoeddus nawr ac yn y dyfodol.** | **Amgylchedd**<br>i) Mae'r Weithrediaeth a'r tîm Rheoli Corfforaethol yn cydnabod y swyddogaeth graffu fel un o systemau pwysig y cyngor ar gyfer ymgysylltu â'r gymuned.<br><br>**Arfer**<br>ii) Nodweddir y swyddogaeth graffu gan drefniadau cyfathrebu effeithiol er mwyn codi ymwybyddiaeth o atebolrwydd democrataidd ac annog cyfranogiad.<br>iii) Mae'r swyddogaeth graffu yn gweithredu mewn modd anwleidyddol ac yn ymdrin yn effeithiol â thensiwn, gwrthdaro a materion gwleidyddol sensitif.<br>iv) Mae'r swyddogaeth graffu yn meithrin ymddiriedaeth a chydberthnasau da ag amrywiaeth eang o randdeiliaid mewnol ac allanol.<br><br>**Effaith**<br>v) Mae'r swyddogaeth trosolwg a chraffu yn galluogi pobl leol a chymunedau ledled yr ardal i leisio barn fel rhan o'r prosesau gwneud penderfyniadau a llunio polisïau. |

# Atodiad 2

## Argymhellion o adroddiad astudiaeth wella genedlaethol yr Archwilydd Cyffredinol ‘Craffu Da? Cwestiwn Da!’ (Mai 2014)

Arddangosyn 3: argymhellion o **Craffu Da? Cwestiwn Da!** Astudiaeth Wella’r Broses Graffu

| Argymhelliad | | Partneriaid Cyfrifol |
|---|---|---|
| A1 | Egluro rôl aelodau gweithredol ac uwch swyddogion wrth gyfrannu at y broses graffu. | Cynghorau, Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| A2 | Sicrhau bod aelodau craffu, ac yn benodol cadeiryddion craffu, yn cael hyfforddiant a chymorth er mwyn sicrhau eu bod yn meddu ar yr holl sgiliau sydd eu hangen i gynnal gwaith craffu effeithiol. | Cynghorau, Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| A3 | Datblygu prosesau blaenraglennu craffu ymhellach er mwyn:<br>• darparu rhesymeg glir dros ddewis pynciau;<br>• canolbwyntio mwy ar ganlyniadau;<br>• sicrhau y defnyddir y dull craffu mwyaf addas ar gyfer y maes pwnc a’r canlyniad dymunol; a<br>• chysoni rhaglenni craffu â threfniadau rheoli perfformiad, hunanwerthuso a gwella’r cyngor. | Cynghorau |
| A4 | Sicrhau bod gwaith craffu yn defnyddio gwaith archwilio, arolygu a rheoleiddio yn effeithiol a bod ei weithgareddau yn ategu gwaith cyrff adolygu allanol. | Cynghorau, Staff Swyddfa Archwilio Cymru, AGGCC, Estyn |
| A5 | Sicrhau bod cyrff adolygu allanol yn ystyried rhaglenni gwaith craffu ac allbynnau gweithgareddau craffu, lle y bo’n briodol, wrth gynllunio a chyflawni eu gwaith. | Staff Swyddfa Archwilio Cymru, AGGCC, Estyn |

| Argymhelliad | | Partneriaid Cyfrifol |
|---|---|---|
| A6 | Sicrhau y caiff effaith craffu ei gwerthuso'n briodol ac y gweithredir arni er mwyn gwella effeithiolrwydd y swyddogaeth; gan gynnwys gwneud gwaith dilynol ar gamau gweithredu arfaethedig ac archwilio canlyniadau. | Cynghorau, Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| A7 | Cynnal hunanwerthusiadau rheolaidd o drefniadau craffu gan ddefnyddio 'canlyniadau a nodweddion trefniadau trosolwg a chraffu effeithiol i lywodraeth leol' a ddatblygwyd gan Rwydwaith Swyddogion Craffu Cymru. | Cyngor |
| A8 | Rhoi cynlluniau gweithredu ar gyfer gwella craffu ar waith yn seiliedig ar astudiaeth wella Swyddfa Archwilio Cymru. | Cynghorau |
| A9 | Mabwysiadu 10 Egwyddor Cyfranogaeth Cymru ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd wrth wella'r ffordd y mae'r swyddogaeth graffu yn ymgysylltu â'r cyhoedd a rhanddeiliaid. | Cynghorau |

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Cathedral Road
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Textphone.: 029 2032 0660

E-bost: info@audit.wales
Gwefan: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru